

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Ionawr, 2019 yn brydlon am 7:00 y.h. yn

Festri Pencaenewydd

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Ragfyr 2018.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion.
Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
 - i) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (y Groeslon, Pwllheli a Chwilog) (**Cyfyngiad Cyflymder** Parth 20 a 40 m.y.a.) 2018. Rhybudd cyhoeddus fod y cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar yr 28ain o Ragfyr 2018. Nid oes gwybodaeth pellach wedi cyrraedd eto.
 - ii) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; **Cyfyngiadau Parcio** Arfaethedig ger tai Glanywern, Chwilog. Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth ganddynt, yn dweud fod y cynnig wedi cael ei anfon at y Gwasanaeth Cyfreithiol, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cychwyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd yr adran am ein hysbysu ar ol cyfnod yr ymgynghoriad, os byddent yn derbyn gwrthwynebiadau. Penderfynu cysylltu hefo Cyngor Gwynedd eto fis Chwefror 2019.
 - iii) **Biniau halen** o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt. Mae un ger Gwyddfôr, Chwilog, Pentyrch Uchaf, Llangybi, Rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy. Bydd y Clerc wedi derbyn cadarnhâd gan y tri Cynghorydd os oes angen mwy o halen ynddynt erbyn y cyfarfod. Bydd angen cadw golwg manwl arnynt yn ystod y misoedd nesaf rhag ofn y bydd hi'n rhewi, ac y bydd angen ei llenwi.
 - iv) **Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus 2019/20 a 2020/21**
Cais gan Cyngor Gwynedd i ofyn os ydym am barhau i fod yn rhan o'r cynllun dros y ddwy flynedd nesaf, i sicrhau bod y ddarpariaeth briodol ar gael yn ein cymuned. Angen i'r Cyngor Cymuned benderfynu gytuno am y ddwy flynedd nesaf, a bydd ein cyfraniadau'n cael ei talu flwyddyn ar y tro. Angen ateb cyn 1 Chwefror 2019.

- v) **Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol-Uned Polisi Cynllunio ar y cyd - Gwynedd a Môn rhwng 13.12.18-31.01.19.**
- Tai fforddiadwy
 - Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy
 - Cyfleusterau a llety i dwristiaid- ymgynghoriad pellach

7. **Sedd Wag** - Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Cyfethol Mr Darren Morley, i gynrychioli Ward Llanystumdwy ar Gyngor Cymuned Llanystumdwy. Angen cwblhau a llofnodi Datganiad Derbyn Swydd ar y noson.

8. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

- a. Cais Rhif C18/1050/41/LL -Codi Cytiau Cwn, Cefn Coed, Chwilog. Y cais wedi cyrraedd yn hwyr ar 05.12.18, ond ni dderbyniwyd y cynlluniau manwl cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar y noson, ond yn dilyn sgwrs rhwng y Cadeirydd a'r Clerc, penderfynwyd rhoi y cais ar y rhaglen fis Ionawr er mwyn ei drafod hefo'r manylion llawn. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Cynllunio i'w hysbysu bydd y sylwadau yn cael ei anfon atyn nhw'n syth ar ol y cyfarfod hwnnw.
- b. Swyddog Trwyddedu, a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd- Hysbysiad o gais Deddf Trwyddedu 2013 - Trwydded Eiddo- Hafan y Môr, Chwilog - angen cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig erbyn 14.01.19.

9. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cynghorydd heb lofnodi.

10. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

- **Mainc** ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain. Y Clerc wedi cysylltu hefo Adran Priffyrdd i holi beth oedd y canllawiau ynglyn ag ail osod mainc arall mewn man cyfagos. Ymweliad wedi ei drefnu ar y safle, rhwng Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cynghorydd o Lanystumdwy a'r Clerc. Penderfynu fod lleoliad yr hen fainc yn rhy agos i'r lon, felly cysidro dau leoliad posib arall cyfagos. Mae'r lleoliad cyntaf yn agos i leoliad yr hen fainc, ble mae hen giat yn y clawdd, (mae'r Clerc wedi anfon llun a chysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn am ganiatâd oherwydd mai nhw yw perchnogion y cae (-disgwyl ateb ganddynt). Mae'r lleoliad arall ger mynedfa Cae Terfyn. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ffurflen gais S115, i ofyn am gael caniatâd. Angen trafod os oes angen prynu mainc newydd.
- Cais i ofyn oes yw'n bosib cael 'tarmac' ar tua 20 llath o'r safle bws i fynediad Talafor, yn lle'r gwellt glas sydd yno rwan. Angen trafod y mater.
- **Glanhau arwyddion ffordd** - Clerc wedi hysbysu'r Adran Priffyrdd.

Rhoslan /Ynys

Dau dwll 'drwg' ar y ffordd rhwng hen orsaf 'Rynys a Fferm Gaerwen. Y Clerc am anfon neges at yr Adran Priffyrdd.

Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Ymweliad wedi ei drefnu ar y safle, rhwng Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cynghorydd o Chwilog a'r Clerc. Nid Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y tir rhwng gwaelod gardd Aelybryn, a'r palmant, felly ystyried byddai'n well rhoi mainc o flaen y Neuadd. Penderfynwyd gofyn am ffurflen gais S115.
- Safle bws ym Mhenygroes Llanystumdwy.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

- Llangybi (i) Rhybudd cau ffordd
- (ii) Sbwriel ail-gylchu

11. Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr o'r Ffynnon gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2019.

12. Deddf Diogelu Data - mae angen rhoi polisi ar ein gwefan.

Mae Clerc Cyngor Tref Caernarfon wedi rhoi caniatâd i unrhyw un ddefnyddio eu polisiau nhw ar gyfer ei addasu ar gyfer ein Cyngor ni.

Maent i'w gweld ar safle wé Cyngor Tref Caernarfon, mae rhain yn yr adran Polisiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Y Cadeirydd wedi mynd drwy'r polisi i'w addasu ar ein cyfer, ac wedi anfon copi at y Clerc er mwyn ei newid cyn ei osod ar ein gwefan.

Y Clerc wedi gwneud y newidiadau ac wedi ei anfon drwy ebost at y Cynghorwyr gan ofyn os oes gan unrhyw sylwadau ynglyn âg o, i'w anfon ati cyn y Cyngor nos Iau. Yna, gellir mabwysiadu'r polisi nos Iau.

13. Deud eich deud am blismona – arolwg gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd-Clerc wedi anfon y manylion ymlaen at y Cynghorwyr i'w gwblhau.

14. **Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd** – ebost wedi cael ei dderbyn gan Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith yn gofyn wrth y Cyngor Cymuned ystyried anfon llythyrau yn galw ar Cyngor Gwynedd i roi heibio'r bwriad i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith.

15. **Ymgynghoriad ar Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd** - Mae 'Partneriaeth Cofrestr Tai Gwynedd' sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru yn awyddus i ail edrych ar y Polisi Gosod Cyffredin er mwyn ei gwneud yn haws a hwyluso y broses ymgeisio a dyrannu tai cymdeithasol sydd ar gael o fewn Gwynedd. Mae'r polisi presennol wedi bod mewn grym ers 2012 ac maent o'r farn ei bod yn briodol ail ymweld gyda'r polisi.

16. **Cwmni Hamdden Gwynedd** - trosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer rheolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd o'r 01.04.19 ymlaen.

17. **Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref gan Llywodraeth Cymru** – manylion am gamau nesaf Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei dull polisi ar gyfer y sector cymuned a chynghorau tref.

Materion Ariannol

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

19. Mae'r Clerc wedi anfon llythyr at Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor fis Rhagfyr 2018, i wneud cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned, roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £974.00.

20. Gohebiaeth gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn am gyflwyno manylion penderfyniad ein Cyngor Cymuned ar gyfer praesept 2019/20, erbyn 25ain Ionawr 2019. Pwyllgor Busnes wedi cytuno yn ei cyfarfod 1af o Ragfyr 2018 i osod praesept am y **flwyddyn Ebrill 2019 - Mawrth 2020 yn £15000.00**, sef yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol. Mae angen y swm yma i allu rhoi y gyllideb bennwyd ar waith. Angen cadarnhâd gan y Pwyllgor llawn. Y Clerc wedyn angen ateb y Pennaeth Cyllid cyn 25 Ionawr 2019.

21. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio allannol	393.75		393.75	Trafod ar y noson

Mae'r bil Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynyddu i £393.75 eleni, yn lle £203.40 llynedd. Mae'r cyn-glerc wedi anfon ebost i holi am hyn, oherwydd fod y ffigwr wedi cynyddu'n sylweddol. Mae wedi derbyn un ymateb ganddynt ond wedi holi ymhellach gan ddweud:-

"Diolch am yr ateb set.

Felly mae'r ffi o £393.75c wedi'i sylfaenu ar waith am hyn a hyn o oriau, dan wahanol gategorïau arweinydd tim, archwilydd ac ati. Un waith y gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol yn ystod yr archwiliad ac fe'i hanfonwyd yn ddiymdroi (roeddech wedi derbyn y wybodaeth cynt beth bynnag).

Felly dylech allu rhestru'r union waith wnaethoch, faint o amser dan wahanol arbenigedd i'r Cyngor ac yn y pendraw y trethdalwyr gael gweld yn union sut daeth cyfanswm yr anfoneb i £393.75c (£203.40c llynedd a £199.95c y flwyddyn cynt)."

Nid oes ateb pellach wedi cyrraedd eto.

Y Clerc wedi mynychu cyfarfod SLCC, Cyngor Tref Caernarfon, ar 14.12.18, oherwydd fod Mr Mabon ap Gwynfor yn bresennol yno ar ran Llyr Gruffydd AC, i drafod problemau y mae cynghorau yn ei cael hefo'r archwiliad BDO. Ceir mwy o wybodaeth ar noson y cyfarfod.

Cyflog mis Rhagfyr 2018 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2018 35 awr x £9.808 =	343.28-llai treth £68.60	<u>274.68</u>	100995
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc	343.00 x 20% = £68.60	<u>68.60</u>	100997
Costau'r Clerc		<u>33.36</u>	100996

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.